# ChloroSan

## Glanhau a Diheintio neu Ddiheintio yn Unig

### Sut i lanhau **Arllwysiadau Gwaed**




Mae menig tafladwy a ffedog yn ofynnol ar bob adeg. Os oes risg o dasgu, defnyddiwch sbectol ddiogelwch.




Llenwch y botel gwanediad gyda **dŵr oer**. Ychwanegwch dabledi ChloroSan. Rhaid bod y caead wedi ei dynnu nes bydd y tabledi wedi toddi'n llwyr. Gwanhewch yn unol â'r cyfarwyddiadau isod.




Sicrhewch fod ardal yr arllwysiad yn ddiogel. Cyn defnyddio ChloroSan, defnyddiwch dyweli papur i amsugno'r gwaed.




Arllwyswch ddigon o doddiant ChloroSan 10,000ppm ar yr arllwysiad i'w orchuddio, a'i adael am 3 munud cyn gwaredu ar y tyweli papur fel gwastraff clinigol.




Glanhewch ardal yr arllwysiad a'r amgylchedd uniongyrchol gyda hydoddiant 1,000ppm ChloroSan.




Dylid cadw toddiant ChloroSan am uchafswm o 24 awr a chael gwared ar unrhyw hydoddiant sy'n weddill gyda dŵr oer rhedegog. Rinsiwch y botel. Gwaredwch ar PPE i'r ffrwd wastraff gywir a golchi eich dwylo.

## Tabl Gwanediad - Defnyddiwch y ChloroSan yn unol â pholisi eich sefydliad.

<table>
<tr><th rowspan="2">Enw'r Cynnyrch</th><th rowspan="2">Glanhau a Diheintio</th><th rowspan="2">Diheintio yn Unig</th><th rowspan="2">Defnydd y Cynnyrch</th><th colspan="2">Defnydd o'r Dabled</th></tr>
<tr><th>Toddiant 1,000ppm</th><th>Toddiant 10,000ppm</th></tr>
<tr><td>ChloroSan 1.7g</td><td>Na</td><td>Ie</td><td rowspan="4">Diheintio Arllwysiadau gwaed (10,000ppm) (Amser cyswllt 3 munud)<br>Ardal Glanhau (1,000ppm) (Amser cyswllt 5 munud)</td><td rowspan="3">1 fesul litr o ddŵr</td><td rowspan="3">10 fesul litr o ddŵr</td></tr>
<tr><td>ChloroSan 1.7g+</td><td>Ie</td><td>Na</td></tr>
<tr><td>ChloroSan 1.8g</td><td>Na</td><td>Ie</td></tr>
<tr><td>ChloroSan 2.5g</td><td>Na</td><td>Na</td><td>1 fesul 1.5 litr o ddŵr</td><td>7 fesul litr o ddŵr</td></tr>
</table>

Wrth ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr, mae'r cynnyrch hwn yn cydymffurfio â EN13727, EN13624, EN13697, EN14476, EN16777 ac EN17126. Mae Dalen Ddata Technegol a Data Diogelwch Materol ar gael ar gais.

## RHYBUDDION A RHAGOFALON

DEFNYDDIWCH FIOLADDWYR YN DDIOGEL. DARLLENWCH Y LABEL A GWYBODAETH Y CYNNYRCH POB TRO CYN DEFNYDDIO, A CHYFEIRIO AT BOLISI'R SEFYDLIAD A'R DDALEN DATA DIOGELWCH.



- Osgowch gyswllt gyda'r croen a'r llygaid.
- Peidiwch ag anadlu tarth, niwl, chwistrell, mygdarth, llwch na nwy.
- Paratowch a defnyddio gydag awyru digonol.
- Defnyddiwch ddŵr oer bob tro i baratoi hydoddiant ChloroSan.
- PEIDIWCH â defnyddio yn uniongyrchol ar wrin na chyfog. Mae cymysgu'r cynnyrch hwn gydag asid neu amonia yn rhyddhau nwy clorin.
- Dylid osgoi cyswllt maith gyda dur gwrthstaen, dillad neu ddodrefn meddal.
- Yn unol â rheoliadau COSHH, cadwch gynhwysydd y tabledi wedi eu gau'n dynn mewn lleoliad diogel, sych allan o gyrraedd plant.
- Peidiwch byth â thynnu labeli'r tabledi.
- Gwaredwch doddiant gweddilliol wedi 24 awr, cyfeiriwch at bolisi eich ysbyty ac SDS.
- Gwaredwch ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn y ffrwd gwastraff cywir a golchi eich dwylo yn drwyadl.

**Scotmas Group**
Purify • Protect • Perform

Pinnaclehill Industrial Estate, Kelso TD5 8AU Yr Alban
(Ff) +44 (0)1573 226901 (E) enquiries@scotmas.com
www.scotmas.info/chlorosan